**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**18 Tachwedd 2013**

# Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ac atodol i'r Bil Gofal

## Cefndir

1. Cafodd Bil Gofal Llywodraeth y DU[1] ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Mai 2013. Prif ddiben y Bil Gofal yn ôl Llywodraeth y DU yw gwella safonau ac ansawdd ledled y sector gofal.

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i) Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") i'r Bil Gofal ("y Bil") yn fuan wedi ei gyflwyniad i Senedd y DU. Cafodd y Memorandwm ei osod gan Lywodraeth Cymru ar 23 Mai am ei bod o'r farn bod y Bil yn gwneud rhai darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Bu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn trafod y Memorandwm ar ôl i'r Pwyllgor Busnes ei gyfeirio ato. Ar 25 Mehefin, cyflwynodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol adroddiad ar ei ganfyddiadau ar y Memorandwm fel y'i cyflwynwyd ar 23 Mai - mae ei adroddiad wedi'i atodi yn Atodiad A.

3. Yn ogystal â'r gofyniad i osod Memorandwm ynghylch cyflwyniad Bil perthnasol, mae gofyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno Memoranda pellach pan fydd unrhyw welliannau sy'n gwneud (neu a fyddai'n gwneud) darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf neu y tu hwnt i derfynau unrhyw gydsyniad a roddwyd o'r blaen gan y Cynulliad yn:

– cael eu cyflwyno neu eu cefnogi gan Weinidog y DU; neu

– yn cael eu derbyn gan Senedd y DU.[2]

4. Mae nifer o welliannau wedi'u gwneud i'r Bil ers ei gyflwyniad, felly roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod Memoranda pellach ar 22 Gorffennaf a 9 Hydref. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y ddau Femorandwm at

[1] Mae'r Bil Gofal ar gael yn: http://services.parliament.uk/bills/2013-14/care.html
[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 29.2(iii)

y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w trafod. Y rheiny yw testun yr adroddiad hwn.

**Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 22 Gorffennaf (y "Memorandwm diwygiedig" i'r Bil Gofal)**

5. Mae'r Memorandwm a osodwyd gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar 22 Gorffennaf yn fersiwn ddiwygiedig o'r Memorandwm gwreiddiol a osodwyd ar 23 Mai. Mae'n wahanol i'r Memorandwm blaenorol am ei fod wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r gwelliannau a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Gorffennaf ac a gytunwyd yn y Pwyllgor Arglwyddi perthnasol ar 16 Gorffennaf. Mae'r gwahaniaethau'n ymwneud â threfniadau ar gyfer lleoliadau trawsffiniol a methiant darparwr. Nid yw'r meysydd a drafodwyd yn adroddiad gwreiddiol y Pwyllgor wedi'u hailadrodd yn yr adroddiad hwn.

6. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm diwygiedig yn ei gyfarfodydd ar 25 Medi ac 17 Hydref 2013.

***Lleoliadau trawsffiniol***

7. Roedd Paragraff 2 o Atodlen 1 i'r Bil Gofal fel y'i cyflwynwyd yn darparu ar gyfer lleoliadau trawsffiniol o Gymru i Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon pan oedd dyletswydd ar awdurdod lleol yng Nghymru i drefnu llety ar gyfer oedolyn yn unol ag Adran 21 neu Adran 26 o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Bydd y gwelliannau a gynigir yn ymestyn Atodlen 1 i achosion pan fo awdurdodau lleol Cymreig yn trefnu lleoliad y tu allan i Gymru yn unol â'u pŵer o dan Adran 22 neu 29. Bydd awdurdodau lleol Cymreig yn parhau i fod yn gyfrifol am gostau unrhyw leoliadau o'r fath, p'un a yw hyn yn ymwneud ag arfer pŵer neu gyflawni dyletswydd.

***Methiant darparwr***

8. Mae cymalau 48 a 49 o'r Bil (fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol) yn gosod dyletswyddau dros dro ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a leolir gan awdurdodau lleol Seisnig mewn cartref gofal yng Nghymru, o dan drefniadau a wneir yn unol â'r lleoliadau trawsffiniol mewn achosion o ddarparwyr yn diffygio. Yn yr un modd, gosodir dyletswyddau cilyddol dros dro ar awdurdodau lleol yn Lloegr i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a leolir gan awdurdodau lleol Cymreig mewn cartrefi gofal yn Lloegr.

9. Mae gwelliannau Llywodraeth y DU i'r Bil yn ymestyn natur a chwmpas y dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddiwallu

anghenion gofal a chymorth oedolion yn eu hardal. Mae'r gwelliannau'n gwneud darpariaeth bod y dyletswyddau dros dro yn gymwys nid yn unig o ran diwallu anghenion oedolion y bydd methiant darparwr cartref gofal yn effeithio arnynt ond hefyd o ran oedolion y bydd methiant darparwr gofal yn y cartref yn effeithio arnynt. Bydd y gwelliannau'n ymestyn ymhellach y dyletswyddau dros dro er mwyn iddynt gynnwys dyletswyddau i ddiwallu anghenion oedolion a leolir yng Nghymru gan awdurdodau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Hefyd, bydd gofyn i Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon sicrhau parhad gwasanaethau gofal pan fydd darparwyr yn diffygio ar gyfer pobl a leolir yno gan awdurdodau Cymru, Lloegr a'r Alban.

10. Wrth ystyried y Memorandwm diwygiedig, nododd y Pwyllgor nad oes gofyniad yn y Bil i awdurdodau lleol yr Alban sicrhau parhad gwasanaethau gofal. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Dirprwy Weinidog i ofyn am eglurhad ynghylch hynny – mae ymateb y Dirprwy Weinidog wedi'i atodi yn Atodiad B.

11. Yn ei hymateb, dyddiedig 10 Hydref 2013, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> nad oes darpariaeth benodol yn y Bil Gofal i osod dyletswyddau dros dro ar awdurdodau lleol yn yr Alban oherwydd byddai hyn yn torri ar draws dyletswyddau a osodir eisoes ar awdurdodau lleol yr Alban yn rhinwedd adran 12 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (yr Alban) 1968 i ddarparu cymorth i unigolion sydd mewn angen yn eu hardaloedd.

12. Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog:

> fod y ddyletswydd o dan Adran 12 yn gymwys hyd yn oed os yw'r unigolyn yn preswylio y tu allan i ardal yr awdurdod, gan gynnwys unigolion a leolir mewn awdurdod lleol yn yr Alban gan awdurdodau Cymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon. Felly, pan fydd awdurdod lleol ledled y DU yn lleoli oedolion mewn sefydliadau rheoleiddiedig yn yr Alban, neu pan fydd yr unigolion eu hunain yn trefnu hynny, bydd **lefel o ddiogelwch** (pwyslais y Pwyllgor) pe baent yn cael yr anffawd o weld bod eu trefniadau gofal yn chwalu o ganlyniad i fethiant darparwr.

13. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig nodi nad yw Adran 12 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (yr Alban) 1968 yn cynnig union yr un lefel o ddiogelwch â darpariaethau'r Bil, ac nid yw o reidrwydd yn sicrhau parhad gofal. Y rheswm dros hyn yw nad yw Adran 12 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol yn yr Alban (pe bai busnes yn methu) i ddiwallu anghenion a

oedd yn cael eu diwallu gan y darparwr cofrestredig. Yn hytrach, mae'n gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu'r cymorth/cyfleusterau **y mae'n ystyried** eu bod yn addas ac yn ddigonol i unigolyn sydd mewn angen. Mae'r ddyletswydd yn codi dim ond pan fyddai rhoi cymorth yn osgoi creu mwy o wariant i awdurdod lleol ar unwaith neu yn y dyfodol. Hefyd, mae gan yr awdurdod lleol yr hawl, cyn rhoi cymorth i unigolyn sydd mewn angen, i roi sylw i gymhwysedd yr unigolyn i gael cymorth gan gorff statudol arall.

14. Nid yw'r gwelliannau sy'n ymwneud â lleoliadau trawsffiniol na methiant darparwr yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

15. Mae'r Memorandwm diwygiedig yn nodi bod mantais defnyddio'r Bil drwy iddo fod y dull deddfwriaethol mwyaf ymarferol o sicrhau dull gweithredu cydlynol ledled y DU. Yn ychwanegol, mae'r Memorandwm diwygiedig yn nodi nad yw'r gwelliannau a gynigir i'r Bil, y gwneir cais am gydsyniad iddynt, yn effeithio'n andwyol ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac nad ydynt yn peri unrhyw oblygiadau ariannol i awdurdodau lleol.

***Ein barn ynghylch y Memorandwm diwygiedig***

Tynnwn sylw'r Cynulliad at y pwynt ym mharagraff 13. Rydym yn nodi'r Memorandwm diwygiedig ac nid oes gennym wrthwynebiad i'w ddefnyddio yn y modd a gynigir mewn perthynas â lleoliadau trawsffiniol a methiant darparwr.

### Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 9 Hydref (y "Memorandwm atodol" i'r Bil Gofal)

16. Mae'r Memorandwm atodol a osodwyd gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar 9 Hydref yn deillio o'r gwelliannau pellach i'r Bil Gofal a gafodd eu cyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 7 Hydref 2013 ac y cytunwyd arnynt yn y Pwyllgor Arglwyddi perthnasol ar 14 Hydref 2013. Mae'r gwelliannau'n ymwneud ag ôl-ofal iechyd meddwl a materion pellach ynghylch lleoliadau trawsffiniol na chawsant eu trafod yn y Memoranda blaenorol.

17. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm atodol yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2013.

### *Lleoliadau trawsffiniol*

18. Mae'r gwelliannau sy'n ymwneud â Chymal 39 ac Atodlen 1 i'r Bil Gofal yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch lleoliadau trawsffiniol. Mae'r gwelliannau i Gymal 39 yn gwneud nifer o addasiadau technegol i'r darpariaethau sy'n galluogi parhad gofal drwy drefniadau cilyddol ledled pedair cenedl y DU. Mae'r gwelliannau'n ceisio:

- sicrhau y bydd yr awdurdod lleoli yn parhau i fod yn gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth i oedolyn os digwydd iddo dreulio amser i ffwrdd o'i lety oherwydd ei fod yn yr ysbyty neu mewn llety gofal iechyd o fath arall;
- galluogi rheoliadau i nodi bod y darpariaethau lleoliadau trawsffiniol yn gymwys i unigolion sy'n cael taliadau uniongyrchol;
- darparu pŵer i wneud rheoliadau a fyddai'n caniatáu i'r trefniadau trawsffiniol gael eu hymestyn i leoliadau ar wahân i gartrefi gofal traddodiadol, er enghraifft llety â chymorth. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi datgan y bwriedir y byddai'r rheoliadau'n eithrio unrhyw sefyllfaoedd pan fo'r oedolyn yn cael gofal yn ei gartref ei hunan.

19. Gwneir hefyd welliannau technegol mewn perthynas ag addasiadau ariannol.

20. Nid yw'r rhan hon o'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth; fodd bynnag, mae paragraff 8 o Atodlen 1 yn nodi, os bydd rheoliadau'n cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru, na chaniateir eu gwneud heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

21. Mae'r Memorandwm atodol yn nodi mai manteision defnyddio'r Bil yw y gellir gwneud trefniadau cilyddol rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

### *Ôl-ofal Iechyd Meddwl*

22. Mae Cymal 71 y Bil Gofal yn gwneud gwelliannau i adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("Deddf 1983") a fydd, heblaw am un eithriad, yn ymestyn i Gymru, ac yn gymwys iddi.

23. Mae manylion y gwelliannau wedi'u nodi ym mharagraff 5.11 o'r Memorandwm atodol. Mae'r gwelliannau'n cynnwys diffiniad o "after care services". Maent hefyd yn ceisio dileu anghysondebau yn y modd y pennir pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol mewn perthynas â darparu gwasanaethau ôl-ofal o dan Ddeddf 1983. Gwnânt hyn drwy osod y rhwymedigaeth i ddarparu

gwasanaethau ôl-ofal i bobl a fu o dan gadwad mewn ysbyty ar gyfer triniaeth am anhwylder meddwl ar yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal yng Nghymru a Lloegr lle mae'r unigolyn yn preswylio fel arfer.

24. Mae Atodlen 4 i'r Bil Gofal yn mewnosod Atodlen A1 newydd yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar ôl rhoi'r Cydsyniad Brenhinol a chychwyn y Ddeddf. Bydd hyn yn caniatáu i unigolion gael taliadau uniongyrchol o dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau ôl-ofal o dan Ddeddf 1983.

25. Diwygir hefyd adran 163 o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) er mwyn egluro statws person o ran ei breswylfa arferol pan ddarperir gwasanaethau ôl-ofal iddo o dan Ddeddf 1983 mewn llety nad yw o fewn ardal yr awdurdod lleol lle mae'r person hwnnw'n preswylio fel arfer.

26. Mae'r gwelliannau'n gwneud darpariaeth ar gyfer gweithdrefn i ddatrys anghydfodau pe bai anghydfod ynghylch statws personau o ran eu preswylfa arferol pan fo hawl gan y personau hynny i gael gwasanaethau ôl-ofal. Os yw’r anghydfod rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru, Gweinidogion Cymru fydd yn cymrodeddu rhyngddynt. Os yw'r anghydfod rhwng un awdurdod lleol neu ragor yn Lloegr ac un awdurdod lleol neu ragor yng Nghymru, dyfernir ar yr anghydfod naill ai gan Weinidogion Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn ddibynnol ar ba bynnag drefniadau sydd i'w cytuno a'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol.

27. Nid yw'r rhan hon o'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mae gwelliant wedi'i gyflwyno i ddarpariaethau cychwyn y Bil, a fyddai’n peri iddo nodi bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud gorchymyn sy'n dod ag Adran 71 i rym, gael cydsyniad Gweinidogion Cymru.

28. Mae'r Memorandwm atodol yn datgan mai'r fantais o ddefnyddio'r Bil yw ei fod yn:

> "...hollbwysig bod newidiadau yn y sail ar gyfer pennu pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu ôl-ofal yn cael eu gwneud ar y cyd, er mwyn sicrhau y parheir i weithredu'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl yn effeithiol ar draws ffiniau".

29. Mae'r Memorandwm atodol yn mynd ymlaen i ddatgan:

> "...gan fod GCaLl a'r Bil Gofal yn cael eu deddfu yr un pryd, byddai'r broses o ddrafftio diwygiadau i'r un deddfiad mewn dau fil gwahanol

nid yn unig yn gymhleth iawn, ond byddai'r ddeddfwriaeth hefyd yn llai hygyrch oherwydd diwygiadau gwahaniaethol mewn dwy statud wahanol, a'r ddwy'n amcanu i gyflawni'r un newid polisi."

30. Er bod y Memorandwm atodol yn nodi'r rhesymau ymarferol dros ddefnyddio'r Bil Gofal yn y modd hwn, mae'r Pwyllgor am nodi ei bod yn anarferol i Fil Llywodraeth Cymru gael ei ddiwygio drwy welliannau i Fil y DU. Mae'r diffyg gwaith craffu posibl gan Aelodau'r Cynulliad ar y darpariaethau hyn yn peri pryder i ni o hyd. O ganlyniad, rydym wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i ofyn am eglurhad ynghylch y rhesymau ymarferol sy'n atal defnyddio'r broses Cyfnod 2 ac rydym wedi gofyn am ymateb i hynny yn ystod y ddadl berthnasol yn y Cyfarfod Llawn.

***Ein barn ynghylch y Memorandwm atodol***

| |
|---|
| Rydym yn nodi'r Memorandwm atodol ac nid oes gennym wrthwynebiad i'w ddefnyddio yn y modd a gynigir mewn perthynas â lleoliadau trawsffiniol. O ran y darpariaethau ar gyfer ôl-ofal iechyd meddwl, rydym yn tynnu sylw'r Cynulliad at y pwynt ym mharagraff 30 yr adroddiad hwn. Edrychwn ymlaen at y Dirprwy Weinidog yn egluro yn ystod y ddadl berthnasol yn y Cyfarfod Llawn y rhesymau am angen cymryd y cam anarferol o ganiatáu i Fil Llywodraeth Cymru gael ei ddiwygio gan Fil y DU. |

**Atodiad A – Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol (25 Mehefin 2013)**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**25 Mehefin 2013**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Gofal

---

## Cefndir

1. Ar 23 Mai 2013, gosododd y Dirprwy Weinidog Gofal Cymdeithasol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm)[3]ar gyfer y Bil Gofal[4], sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.

2. Ar 4 Mehefin 2013, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ("y Pwyllgor) i'w ystyried, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y darpariaethau perthnasol erbyn 4 Gorffennaf 2013. Bydd y Memorandwm yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Gorffennaf 2013.

## Bil Gofal ("y Bil")

3. Mae'r Memorandwm yn crynhoi amcanion polisi'r Bil:

> "Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd (DH) a'r hyn y dywed Llywodraeth y DU yw ei nodau yw gwella safonau ac ansawdd ledled y sector gofal a moderneiddio'r gyfraith fel ei bod yn rhoi blaenoriaeth i les unigolion ac yn galluogi pawb y mae arnynt angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol i gael gofal o ansawdd da."

## Prif effaith y darpariaethau y ceisir caniatâd ar eu cyfer

4. Ceisir caniatâd mewn perthynas â thair darpariaeth yn y Bil, sy'n ymwneud â:

(i) trefniadau cilyddol (ledled y Deyrnas Unedig) ar gyfer lleoliadau trawsffiniol i oedolion mewn gofal preswyl (cymal 38 ac Atodlen 1);

---

[3]Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=243185&ds=2/2013

[4] Mae'r Bil Gofal ar gael ynhttp://services.parliament.uk/bills/2013-14/care.html

(ii) trefniadau i sicrhau parhad gofal i oedolion y mae sefydliad gofal preswyl cofrestredig yng Nghymru yn eu lletya, os bydd darparwr yn methu (cymalau 48 a 49, cymal 111(3) a chymal 109(8)); a

(iii) gofyniad bod Gweinidogion Cymru yn cydweithredu â'r Awdurdod Ymchwil Iechyd newydd, annibynnol wrth reoleiddio gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU (cymal 98).

***Lleoliadau trawsffiniol***

5. O ran lleoliadau trawsffiniol, mae'r Bil, yn achos person sy'n preswylio fel arfer yn y DU, sydd ag anghenion gofal a chymorth, ac y mae arno angen llety preswyl i ddiwallu'r anghenion hynny, yn ceisio gwneud darpariaeth ar gyfer lletya'r person hwnnw mewn rhan arall o’r DU. O ganlyniad, bydd modd i'r bobl sy'n dymuno symud i lety preswyl ar draws ffiniau mewnol y DU ddewis gwneud hynny. Ceir darpariaeth hefyd i ddatrys unrhyw anghydfod rhwng awdurdodau lleol ac i adennill taliadau gan awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu llety i'r oedolyn.

6. Nid yw'r rhan hon o'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mae pwerau, fodd bynnag, i'r Ysgrifennydd Gwladol ragnodi - drwy gyfrwng rheoliadau - ar gyfer datrys anghydfod ac ar gyfer y mathau o drefniadau y bydd y darpariaethau'n gymwys iddynt. Os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru, ni chaniateir iddynt gael eu gwneud hen ganiatâd Gweinidogion Cymru.

***Methiant darparwr***

7. O ran methiant darparwyr, mae'r Bil yn ceisio cryfhau dyletswyddau awdurdodau lleol o ran gofal oedolion os bydd darparwr yn methu. Bydd y Bil yn gosod dyletswyddau dros dro ar awdurdod lleol yng Nghymru, i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a gaiff eu gosod gan awdurdodau lleol Lloegr mewn cartref gofal yng Nghymru, o dan drefniadau a wnaed yn unol â lleoliadau trawsffiniol. Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswyddau dros dro ar awdurdod lleol yn Lloegr i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion a gaiff eu gosod gan awdurdodau lleol Cymru mewn cartref gofal yn Lloegr, yn unol â lleoliadau trawsffiniol. Mae’r darpariaethau’n gymwys os na fydd darparwr yn gallu parhau i ddarparu llety oherwydd methiant busnes, ac fe’u gwneir yn dilyn y gwersi a ddysgwyd pan fethodd Southern Cross. Gwneir darpariaeth i adennill costau gan yr awdurdod lleol y mae’r oedolyn yn preswylio ynddo fel arfer, neu gan yr oedolyn ei hun, os trefnwyd gofal yn breifat.

8. Nid yw'r rhan o'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddarparu

ar gyfer dehongli'r cyfeiriad at fethiant busnes neu at fethu gwneud rhywbeth oherwydd methiant busnes, ond rhaid iddo ef neu iddi hi, fodd bynnag, ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o'r fath. Yn ogystal â hyn, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i sicrhau bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn gwneud gorchymyn i ddod â threfniadau i rym i ymdrin â methiant darparwr, i'r graddau y mae'n gymwys i lety yng Nghymru.

### *Yr Awdurdod Ymchwil Iechyd*

9. O ran yr Awdurdod Ymchwil Iechyd, mae'r Bil yn ceisio sicrhau bod Gweinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill yn cydweithredu â'r Awdurdod wrth arfer eu swyddogaethau o reoleiddio ac asesu moeseg gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Nod y cymal hwn yw sicrhau y caiff arferion mewn perthynas â'r rheoliad hwn eu cydgysylltu, eu safoni a'u hyrwyddo ledled y DU.

## Y berthynas â'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

10. Mae'r Memorandwm yn cadarnhau bod y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu cyflwyno gwelliannau i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i sicrhau bod darpariaethau cyfatebol i'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Gofal i ymdrin â methiant darparwyr yn cael eu gwneud ar gyfer holl awdurdodau lleol Cymru. Golyga hyn y bydd darpariaethau'n cael eu gwneud i ddiogelu oedolion yng Nghymru os bydd y cwmni sy'n gyfrifol am eu gofal yn rhoi'r gorau i ddarparu gofal ar fyr rybudd.

## Ystyried y Memorandwm

11. Ystyriwyd y Memorandwm ar 12 Mehefin Nid ydym yn credu bod angen gofyn i'r Dirprwy Weinidog am unrhyw esboniad pellach.

## Ein barn

12. Rydym yn nodi'r Memorandwm ac nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad iddo gael ei ddefnyddio yn y modd a gynigir.

13. Fel y nodir ym mharagraff 10 o'r papur hwn, rydym yn ymwybodol bod y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio gwneud darpariaethau cyfatebol i'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Gofal i sicrhau bod oedolion yng Nghymru yn cael eu diogelu os bydd darparwr yn methu. Hoffem bwysleisio pwysigrwydd y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a

**Atodiad A – Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol (25 Mehefin 2013)**

Llywodraeth y DU i sicrhau diffiniad a dealltwriaeth gyffredin o "fethiant busnes" ar draws ffiniau.

**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LFGT096313

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Hydref 2013

Annwyl David,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Diwygiedig: Y Bil Gofal**

Diolch am eich llythyr dyddiedig Medi 30 yn gofyn i mi egluro rhai materion sy'n ymwneud â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ("yr LCM diwygiedig"). Yn benodol, roedd y Pwyllgor eisiau gwybod pam nad yw'r LCM yn ystyried trefniadau cyfatebol i awdurdodau lleol yn yr Alban sicrhau parhad yn y trefniadau gofal o ganlyniad i fethiant ar ran y darparwr.

Nid oes darpariaeth benodol yn y Bil Gofal sy'n rhoi dyletswyddau dros dro ar awdurdodau lleol yn yr Alban. Byddai hyn yn mynd yn groes i adran 12 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968 sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yr Alban i ddarparu cymorth i unigolion yn eu hardaloedd sydd mewn angen.

Mae'r ddyletswydd o dan adran 12 yn gymwys hyd yn oed os yw'r unigolyn yn preswylio'n arferol y tu allan i ardal awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys unigolion a leolwyd mewn ardal awdurdod lleol yn yr Alban gan awdurdodau o Gymru Lloegr neu o Ogledd Iwerddon. Felly, os bydd awdurdod lleol yn y DU yn gosod oedolion mewn lleoliadau a reoleiddir yn yr Alban, neu fod yr unigolion eu hunain yn trefnu hynny, bydd ganddynt ryw lefel o amddiffyniad petaent yn ddigon anffodus i weld eu trefniadau gofal yn methu o ganlyniad i fethiant ar ran y darparwr.

Efallai'ch bod yn ymwybodol bod newidiadau pellach i'r Bil Gofal (a gyflwynwyd ar 7 Hydref) wedi peri bod rhaid i mi gyflwyno Memorandwm Atodol a Chynnig ar y newid i gymal 39 a 71 o'r Bil hwnnw sy'n cael effaith ar Gymru ac o'r herwydd ofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad. Bydd y newidiadau hyn yn gwella'r trefniadau cyfatebol y cyfeirir atynt yn yr LCM diwygiedig am barhad gofal ar draws ein ffiniau. Mae'n gwneud nifer o ddiwygiadau i adran

117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 fel y mae'n gymwys i Gymru, mewn perthynas â dyletswyddau awdurdod lleol ar gyfer ôl-ofal iechyd meddwl.

Isod, mae dolenni i'r wybodaeth y cyflwynais ar 9 Hydref.
http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=250840&ds=10/2013

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=250841&ds=10/2013

Rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ystyried yr LCMs, yn enwedig i'r graddau y maent yn gorgyffwrdd â Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Rwy'n siŵr eich bod yn deall cymhlethdod y newidiadau i'r Bil Gofal ac i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod trefniadau cyfatebol (cyn belled ag y bo'n ymarferol) sy'n esbonio pob sefyllfa bosib a all ddigwydd i unigolyn, roedd yn anochel y byddai hyn yn arwain at LCM Atodol pellach.

Hyderaf fod y llythyr hwn yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch y sail ddeddfwriaethol ar gyfer parhad y trefniadau gofal fel y maent yn gymwys i'r Alban. Os bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu anfon y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a'r Memorandwm at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol byddaf yn aros yn eiddgar i'r Adroddiad gael ei ystyried gan y Pwyllgor hwnnw.

Yn gywir



**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services